www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

www.giantsnorthwales.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Gwyliau byr yn rhoi hwb tymor hir

01745 589020
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

Gwyliau byr yn rhoi hwb tymor hir

Mae'r rhai sy'n rhedeg busnesau twristiaeth yng Ngogledd Cymru yn barod i fanteisio ar boblogrwydd cynyddol gwyliau yn y wlad hon.

Golyga'r dirwasgiad a gwendid y bunt fod llai a llai o bobl yn mynd ar wyliau tramor – a'u bod yn hytrach na hynny'n dewis gwyliau byr yn nes at adref.

Mae Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol economi ymwelwyr y rhanbarth, yn bwriadu cynnal ymgyrch fawr i hyrwyddo gwyliau byr yma.

Hyd yn oed cyn y wasgfa ariannol, roedd gwyliau byr yn datblygu i fod yn ddimensiwn cynyddol bwysig o'r economi ymwelwyr ond mae'r dirwasgiad wedi cyflymu'r duedd.

Yn awr mae'r Bartneriaeth Twristiaeth yn buddsoddi £25,000 yn yr ymgyrch ar-lein ac mae'n hyderus y bydd hyn yn creu elw o £500,000.

Mae hynny'n gyfystyr â chreu £20 am bob £1 y mae'r Bartneriaeth Twristiaeth yn ei gwario.

Eglurodd Carole Startin y Swyddog Marchnata Gweithredol: "Mae'r farchnad am wyliau byr wedi bod yn tyfu ers pedair neu bum mlynedd o leiaf a dyna pam ein bod wedi bod yn canolbwyntio ar y rheiny yn hytrach na phecynnau gwyliau traddodiadol.

"Rydym yn dal i farchnata gwyliau arbenigol mewn meysydd fel golff, gerddi, cerdded ac antur ond bellach mae gwyliau byr cyffredinol yn gyfrifol am 80 y cant o farchnad y DU.

"Mae gwyliau byr yn cefnogi cymaint o'n hymgyrchoedd eraill. Ar wahân i'r farchnad ymwelwyr dydd ar gyfer atyniadau, rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o berswadio pobl i aros a threulio mwy o amser yma.

"Dydyn ni ddim yn argraffu llyfryn gwyliau byr gan fod ein hymdrechion i gyd ar-lein yn awr.

"Mae gennym y wefan www.breaksnorthwales.co.uk a gall ymwelwyr archebu ar-lein unrhyw awr o'r dydd neu'r nos gyda'r 100 a mwy o ddarparwyr llety sydd arni – ac mae pethau'n gweithio'n dda.

"Bellach mae pawb sy'n chwilio am rywle i fynd ar eu gwyliau yn troi at y rhyngrwyd yn y lle cyntaf.

"O ran llety, yn ogystal â gwneud eu gwaith ymchwil ar-lein, maen nhw hefyd yn archebu ar-lein.

Yn ôl Ms Startin, roedd mwy a mwy o bobl yn penderfynu cymryd gwyliau yn y wlad hon yn hytrach na gwibio i Ewrop neu ymhellach draw gan fod gwendid y bunt yn gwneud gwyliau tramor gryn dipyn yn ddrytach.

Yn hytrach nag aberthu eu gwyliau blynyddol, roedd pobl yn dewis cymryd mwy o wyliau byrion neu gymryd eu prif

wyliau yn y DU.

Ychwanegodd Ms Startin: "Yn sicr, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr llety, atyniadau a busnesau twristiaeth amrywiol yng Ngogledd Cymru wedi cael blwyddyn dda, sy'n mynd yn groes i'r duedd.

"Mae pobl yn gyndyn o aberthu eu gwyliau i gyd ac mae gwyliau byr yn dod yn opsiwn mwy deniadol.

"Nid moethusrwydd yw gwyliau yn awr, maen nhw'n saib angenrheidiol i gael gwared ar straen i'r rhan fwyaf o bobl a'n nod yw gwneud yn siŵr fod mwy a mwy ohonyn nhw'n ailddarganfod pleserau Gogledd Cymru.

"Rhan o'n hymgais i ailgyflwyno Gogledd Cymru yw pwysleisio nad ydym yn canolbwyntio ar wyliau maith y blynyddoedd a fu – rydym yn targedu'r farchnad gwyliau byr.

"Rydym yn ymdrechu i ddod yn brif leoliad antur Gogledd Cymru ond mae cymaint mwy i'r rhanbarth na chwilio am gyffro a gwefr.

"Mae pobl yn rhyfeddu wrth weld cymaint sydd i'w wneud yma ac un o'n heriau yw cyfleu hynny i ddarpar ymwelwyr.

"Ar gyfer 2010, rydym yn canolbwyntio llawer mwy ar ddenu busnes, a chael y brand gwyliau byr allan yna – gan ddefnyddio cysylltiadau cyhoeddus i greu straeon a marchnata gan ddefnyddio cronfa ddata.

"Byddwn yn targedu pobl o Ogledd Orllewin, Gogledd Ddwyrain a Chanolbarth Lloegr yn ogystal â'r Siroedd Cartref sydd â diddordeb mewn gwyliau hamdden yn y DU.

"Byddwn yn e-bostio gwybodaeth atyn nhw am y cynigion sydd gennym yng Ngogledd Cymru adeg gwyliau'r ysgol, y Pasg a Gwyliau Banc eraill.

"Mae'r wefan yn cael ei diweddaru'n gyson ac rydym yn gwneud llawer mwy i optimeiddio'r peiriant chwilio i wneud yn siŵr ein bod yn ymddangos yn uwch ar restr Google.

"Bydd y wefan hefyd yn siop un stop i bobl sydd eisiau archebu llyfryn ar gyfer unrhyw un o'm hymgyrchoedd Gogledd Cymru.

"Ein nod yw cael 130,000 o ymwelwyr â'r wefan Gwyliau Byr yn 2010 sy'n gynnydd o 300 y cant ar eleni.

"Byddwn hefyd yn mesur y gyfradd glicio o ran y bobl sy'n trosi'r diddordeb cychwynnol hwnnw'n archebion trwy glicio ar fotwm archebu'r wefan.

"Yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf, bydd diffyg ffydd y defnyddiwr yn yr economi unwaith eto'n golygu bod mwy o bobl yn cymryd gwyliau yn y DU a bydd Gwyliau Byr Gogledd Cymru yn ceisio manteisio ar y duedd hon."

www.tpnw.org